

**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**  
COFNODION CYFARFOD MISOL  
5 Gorffennaf 2018 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**Trafodaeth efo Catrin Thomas, Uwch Reolwr, adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd, am newidiadau i Wasanaeth Ieuentid Gwynedd**

Croesawyd Catrin Thomas i'r cyfarfod. Eglurodd y newidiadau sydd i'w gwneud i Wasanaeth Ieuentid Gwynedd, sef i ganoli'r Gwasanaeth Ieuentid yn bennaf mewn un prif leoliad ymhob dalgych ysgol. Does dim dyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd i barhau â'r drefn bresennol o gael Clwb Ieuentid ym mhrif bentrefi a threfi Gwynedd.

Gwneir y newidiadau er mwyn gwireddu arbedion ariannol i Gyngor Gwynedd, ond hefyd er mwyn cynnig mwy o amrywiaeth o weithgareddau a sicrhau cysondeb darpariaeth ar draws y gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth yn amrywio'n sylweddol o ran beth a ddarperir, ansawdd y gwasanaeth, a nifer y defnyddwyr. Yn sicr, roedd Cyngor Gwynedd o'r farn na fedrai'r Gwasanaeth Ieuentid barhau yn ei ffurf bresennol, oherwydd nid oedd yn cynnig y gwasanaeth gorau.

Cafwyd proses ymgynghori, a bu ymgynghori manwl gyda'r bobl ifanc fydd yn cael eu heffeithio, ac yn gyffredinol roeddynt o blaid y newidiadau. O ran plant a phobl ifanc Bontnewydd cawsant eu holi fel disgyblion dalgyllch Ysgol Syr Hugh Owen,

Tua 14% o bobl ifanc Gwynedd sy'n defnyddio'r clybiau Ieuentid, ac felly mae yna le i gynyddu'r niferoedd.

Er fod yna 42 wedi cofrestru fel aelodau o Glwb Ieuentid Bontnewydd, tua 14 sy'n mynychu'n rheolaidd, ac ar ei waetha roedd y niferoedd mor isel â phedwar neu bump. Roedd y Clwb Ieuentid wedi bod yn cyfarfod am ddwy noson yr wythnos ar un cyfnod, ac mae hynny i lawr i un bellach.

Y pryder yw na fyddai llawer o blant Bontnewydd am deithio allan o Fontnewydd, e.e. i Gaernarfon unwaith i'r trefniadau newydd ddechrau fis Medi. Yn ogystal wedi difodiant y Clwb Ieuentid, byddai'r Ganolfan yn colli incwm rhent go sylweddol bob blwyddyn.

Y strwythur presennol yw fod y gweithwyr Ieuentid yn teithio o le i le er mwyn darparu'r gwasanaeth. Gyda'r trefniadau newydd, byddai yna lawer mwy o hyblygrwyddyn nhermau'r ddarpariaeth, y lleoliad a'r oriau. Gallai'r gwasanaeth fod yn 2 awr mewn un lleoliad ar un noson yr wythnos, neu yn nifer gwahanol o oriau ond am 4 noson y wythnos.

O ran y model newydd, gallasai'r Cyngor Cymuned brynu peth o'r gwasanaeth e.e. cyfrannu £1,500 i gyngor Gwynedd i ddarparu nosweithiau yn Y ganolfan, Bontnewydd ar thema benodol, e.e. ffotograffiaeth am x wythnos.

Mynegwyd fod gan y Cyngor Cymuned y deisyfiad i gynorthwyo i gynnal Clwb Ieuentid ym Montnewydd, ond byddai'n anodd iawn cyfiawnhau cyfraniad ariannol mawr, yn enwedig o

gofio'r golled ariannol i'r Ganolfan sy'n digwydd beth bynnag. Deallir y byddai angen tua £3,000 y flwyddyn cyn ystyried cynnal Clwb Ieuenctid.

Pendefynwyd rhoi'r mater ar Agenda mis Medi, pan y byddai yna fwy o aelodau yn bresennol.

Byddai angen gwneud unrhyw benderfyniad parthed y mater erbyn tua Ebrill 2019

Efallai y byddai'r Cyngor Cymuned am aros ychydig fisoedd er mwyn gweld sut mae'r system newydd yn gweithio cyn dod i benderfyniad terfynol?

## **PRESENNOL :**

**Cynghorwyr:** Mirain Llwyd Owen, Wynn Roberts, Math Williams, Peter Garlick, Cadi Sion, Erddyn Davies

**Cadeirio:** Gwyneth Thomas

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

### **1. YMDDIHEURIADAU**

Emyr Williams, Dafydd Iwan, Wynn Roberts, Ifor Dylan Williams, Geraint Strello

### **2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL**

Dim

### **3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd cofnodion Mehefin 2018. Cynnig: Mirain Llwyd Owen  
Eilio: Peter Garlick

### **4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

#### **4.1 Cyflymder yn Llanfaglan**

Bu Gan Bwyll yn mesur y cyflymder yn Llanfaglan, ac maent yn bwriadu gosod fan yno o dro i dro.

#### **4.2 Y Ganolfan,**

Cafwyd archwiliad asbestos gan Kimberley Gulf yn dilyn pryder fod asbestos yn yr adeilad. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad nad oes asbestos yn yr adeilad, ac felly mae'n ddiogel.

Rhoddodd y Cynghorydd Math Williams grynodedb o sefyllfa ariannol Y Ganolfan. Rhagwelir y bydd incwm tros wariant tua £2,650 yn brin y flwyddyn nesaf. Mae'r incwm tros wariant elleni £700 yn brin, ond bydd y sefyllfa'n gwaethygu oherwydd colled incwm cymharol sylweddol y Clwb Ieuenctid.

Defnyddwyr Y Ganolfan yw'r Ysgol Feithrin, Clwb ar ôl ysgol, ac fe logir y neuadd o dro i dro gan amrywiol fudiadau

Disgwylir bil dwr sylweddol yn fuan hefyd oherwydd i bibell ddwr dorri.

Cafodd y Clerc Anfoneb am £28.80 am ddarparu cwpwrdd gwrthsefyll tân, ac fe gytunwyd ei fod yn rhan o'r uwchraddio offer tân a wnaethpwyd yn ddiweddar, ac felly y dylai'r Cyngor Cymuned ei dalu.

Cytunwyd fod angen trafodaeth fanwl a sefyllfa ariannol Y Ganolfan yn y dyfodol agos.

#### **4.3 Cadw Cymru'n Daclus**

Aeth 8 aelod o'r Cyngor Cymuned i fynd o gwmpas Bontnewydd a Llanfaglan i gasglu sbwriel ddydd Sul, 10 Mehefin. Diolchwyd i Cadw Cymru'n Daclus am roi benthyg offer priodol. Gofynnodd y Clerc i unrhyw un nad oedd wedi dychwelyd yr offer i wneud hynny i Cadw Cymru'n daclus cyn gynted â phosibl.

Cytunwyd gofyn i gynrychiolydd o Cadw Cymrun daclus fynychu yng nghyfarfod Hydref.

#### **4.4 Cerrig yn afon gwyrfaï**

Ysgrifennodd y Clerc at Gyfoeth Naturiol Cymru, wedi i'r Cynghorydd Geraint Strello godi'r mater yn y cyfarfod diwethaf. Mae'r person sy'n delio efo'r mater yn Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod ar wyliau ac felly dyna'r rheswm dors yr oedi cyn cael ymateb.

Dywedodd y Cynghorydd Math Williams ei fod o'r farn mai cerrig wedi eu talfu l'r afon ger Plas Pen Y Bryn yw'r rhai sydd yn awr ger Cae Samuel. Mae afonydd yn medru cario cerrig o'r fath yn bell, ond pan fo cyflymder yr afon yn arafu wrth iddi ledu does dim digon o nerth gan yr afon l gario'r cerrig ymhellach.

Y pryder yw y gall y bydd y cerrig yn arwiani'r afon lifogi yn uwch i fyny.

### **5. MATERION ARIANNOL**

#### **5.1 Cyflog a Chostau Clerc Mehefin 2018**

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

**Cyfanswm Gros** £253.18 y mis

**Cyfanswm Net** £211.58 y mis

#### **5.2 Mân dreuliau'r Clerc – postio a bagiau sbwriel £5.52**

#### **5.3 Arwydd Tân i'r Ganolfan, Viking Signs, (ad-dalu'r Clerc) £12.70**

**5.4 Cyfraniad at Waith Adnewyddu'r Ganolfan** £3,954.00

**5.5 Balans yn y Banc 4 Gorffennaf 2018** £18,931.15

**6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

Ymgynghori Cyhoeddus Gwynedd a Môn, Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gyfleusterau Llety i Dwristiaid a Cymysgedd Tai.

Nodwyd y canllawiau draft.

**7. GOHEBIAETH**

Dim

**8. MATERION ERAILL**

**8.1 Giat Lôn Eifion ger Pont y Rheilffordd, Bontnewydd**

Adroddodd y Cynghorydd Geraint Strello fod y giat yma wedi torri. Roedd wedi ceisio ei thrwsio ddwywaith, ond roedd o'r farn fod ei chyflwr mor ddrwg erbyn hyn fel bod angen gofyn i Gyngor Gwynedd osod giat newydd yno.

**8.2 Amrywiol faterion gan y Cynghorydd Peter Garlick**

**(a) Goryrru Ffordd Pandy**

Cafodd y cynghorydd Peter Garlick gyfarfod efo Dylan Wynn Jones, Cyngor Gwynedd, er mwyn trafod y broblem goryrru. Bwriad Cyngor Gwynedd yw monitro'r cyflymder ar hyd y lôn, a'r nifer ceir sy'n ei defnyddio.

**(b) Rhos Bach**

Bwriada Cyngor Gwynedd osod arwydd yn nodi y Lôn Feics, fel bo gyrrwyr yn ymwybodol ohoni.

**(c) Y Ganolfan**

Bydd Cyngor Gwynedd yn gsod llinellau melyn am 10 llath o'r lôn gul sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r Ganolfan, o'r ty ar y gornel. Mae hyn er mwyn sicrhau nad oes ceir wedi parcio yn cyfyngu mynediad i gerbydau brys.

**(ch) Ceir yn parcio ar y palmant**

Mae ceir yn parcio ar y palmant ger Siop y Barbwr ym Montnewydd. Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n gweithio ar gynllun l rwystro hyn yn y dyfodol.

**(d) Ffens yn gwarchod y ffos ger hen siop Bontnewydd**

Mae arian wedi ei glustnodi er mwyn gwella'r ffens sy'n gwarchod y ffos ddwr yr ochr isaf i'r hen siop ym Montnewydd yn ystod y flwyddyn ariannol yma.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**3 Medi** 2018 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

